CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

551/52

**ASTUDIAETHAU CREFYDDOL RS 1b**

# CREFYDDAU'R DWYRAIN

**Cyflwyniad i naill ai Bwdhaeth neu Hindŵaeth neu Sikhaeth**

P.M. DYDD IAU, 8 Mehefin 2006

(1 awr)

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 8 tudalen.

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch gwestiynau o **un** adran **yn unig**, **naill ai** Adran A **neu** Adran B **neu** Adran C.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfr ateb a ddarparwyd ar wahân.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 20 marc ar gael ar gyfer pob cwestiwn. Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Fe'ch atgoffir o'r angen am Gymraeg da ac am gyflwyniad clir yn eich atebion.

Dylid ateb pob cwestiwn mewn rhyddiaith ddi-dor. Asesir ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig ym mhob ateb.

*Atebwch gwestiynau o* **un** *adran* **yn unig**, **naill ai** *Adran A* **neu** *Adran B* **neu** *Adran C*.

## ADRAN A: Cyflwyniad i Fwdhaeth

*Atebwch* **Gwestiwn 1** *ac* **un** *cwestiwn arall*.

**1.**

> Un o'r pethau cyntaf a wnaeth y Bwdha ar ôl iddo gyrraedd goleuedigaeth oedd egluro beth, yn ei farn ef, oedd y cyflwr dynol. Yn ôl Bwdhyddion, dim ond tri pheth y gallwn fod yn gwbl sicr ohonyn nhw. Does dim modd i ni wybod a gafodd y byd ei greu gan Dduw, a oes bywyd ar ôl marwolaeth neu unrhyw beth felly. Y cwbl y gallwn fod yn sicr ohono yw'r tri nod bodolaeth – Dukkha, Anicca ac Anatta.
>
> *Bwdhaeth ar gyfer myfyrwyr UG* – Wendy Dossett.

*(a)* Eglurwch, gydag enghreifftiau, y cysyniad Bwdhaidd o *Anatta*. [10]

*(b)* Eglurwch y ddau *nod bodolaeth* arall. [10]

**2.** *(a)* Eglurwch rôl ac arwyddocâd y tair gem mewn Bwdhaeth. [10]

*(b)* 'Y Bwdha yw'r pwysicaf o'r tair gem.'
Aseswch y safbwynt hwn. [10]

**3.** *(a)* Amlinellwch y cefndir cymdeithasol a chrefyddol y daeth Bwdhaeth ohono. [10]

*(b)* 'Trodd y Bwdha ei gefn ar holl ddysgeidiaeth grefyddol ei oes.'
Aseswch y safbwynt hwn. [10]

## ADRAN B: Cyflwyniad i Hindŵaeth

*Atebwch* **Gwestiwn 1** *ac* **un** *cwestiwn arall*.

**1.**

> Mae Hindŵiaid yn credu mai'r tri duw pwysicaf yw Brahman y creawdwr, Vishnu y cynhaliwr a Shiva y dinistriwr. Mae'r tri duw yn cael eu hadnabod fel y Trimurti. Maent yn gweithio gyda'i gilydd mewn patrwm diddiwedd. Mae popeth yn cael ei greu, yn parhau am gyfnod ac yna'n cael ei ddinistrio.
>
> *Hinduism* – Sue Penny

*(a)* Eglurwch brif nodweddion *Shiva*. [10]

*(b)* Eglurwch brif nodweddion Vaishnaviaeth. [10]

**2.** *(a)* Eglurwch sut mae puja yn cael ei gyflawni mewn Hindŵaeth. [10]

*(b)* 'Y puja dyddiol yw'r arfer pwysicaf mewn Hindŵaeth.'
Aseswch y safbwynt hwn. [10]

**3.** *(a)* Eglurwch y cysyniad o varna mewn Hindŵaeth. [10]

*(b)* 'Mae'r varnas yn creu cymdeithas annheg ac anghyfartal.'
Aseswch y safbwynt hwn. [10]



**Trosodd.**

## ADRAN C: Cyflwyniad i Sikhaeth

*Atebwch* **Gwestiwn 1** *ac* **un** *cwestiwn arall.*

**1.**

> Dywedodd Guru Gobind Singh wrth y bobl y dylai'r dynion gael yr enw panj piare - y rhai annwyl - oherwydd iddynt fod yn barod i farw dros yr hyn roeddynt yn ei gredu.
> Nid yw pob Sikh yn aelod o'r Khalsa. Mae rhai yn teimlo na allant gadw'r rheolau ar gyfer byw y mae'n ei ddisgwyl ganddynt. Pan fydd Sikh yn ymuno â'r Khalsa, mae yna seremoni arbennig o'r enw seremoni'r amrit.
>
> *Sikhism* – Sue Penny

*(a)* Eglurwch bwysigrwydd y *panj piare* mewn Sikhaeth. [10]

*(b)* Eglurwch sut mae Sikh yn cael ei dderbyn i mewn i'r *Khalsa*. [10]

**2.** *(a)* Eglurwch brif nodweddion gurdwara. [10]

*(b)* 'Y langar yw nodwedd bwysicaf y gurdwara.'
Aseswch y safbwynt hwn. [10]

**3.** *(a)* Eglurwch y cyfraniad a wnaeth Guru Arjan i Sikhaeth. [10]

*(b)* 'Mae Deg Guru Sikhaeth yn gyfartal o ran statws.'
Aseswch y safbwynt hwn. [10]